

Marwnad

I'R DIWEDDAR

MR. THOMAS JENKINS,

Cilgraig, Llandyssul.

(*Buddugol yn Nghyfarfod Llenyddol Capel Dewi, yr hwn a gynhelid Mawrth 11eg, 1903. Beirniad, Parch. J. T. Hughes, Llanfihangel-ar-Arth.*)

CENAI'S alarebau lawer ; mae cysgodau'r ywen werdd
Mor gynefin a chorfanau bron hyd lwybrau prudd fy ngerdd ;
Mae cynhyrfus sw'n yr afon—afon Glan Geirionydd lân—
Megis marwnad drag'wyddol dynolryw yn sw'n fy nghân.

Ond daw trallod *hen o'r newydd* heddyw 'i wylu ar fy nhant,
Gyda'r awen af at feddrod un o'i mabwysiedig blant ;
Ond os *oer* yn mynwent Capel Dewi yw gweddillion hwn,
Cu a chynes yw ei goffa gan ei genedl dan ei phwn.

Nid oes eisiau wylu'n uchel i amlygu galar dwys ;
Mae teimladau yn y galon nas gall dagrau ddal eu pwys ;
Nid y gawod fwyaf trystfawr sydd yn glasu'r ddol a'r bryn—
Dan y gwllth mae'r meillion lliwgar yn ymddangos yn y glyn ;
Dan deimladau dwys, hiraethus cyfyd gyrfu *Jenkins* fwyn
Eto'n wrid i gymeriadau, ac yn gyfareddol swyn.

Profodd lymder brwydr bywyd yn nghynarol flwyddi 'i oed ;—
Dyma hanes plant y werin—dyna 'u tynged hwy erioed,
Ond y llaw sydd yn caledu yn y frwydr wrth ei gwaith,
Dyna'r llaw sy'n llywodraethu cwsr y byd drwy'r oesau maith.

Ni phalantodd ffawd ei lwybrau drwy y byd âg aur bob cam,
Ond yn ddiogelwch cafodd dduwiolfrydedd tad a mam ;
Nid oes neb a ddichon brisio grym a gwerth esiamp' dda—
Crwydra drwy auafau bywyd fel llewyrchiad Dwyfol ha'.

Drwy helyntion mebyd llawen cadwodd hwn ei enw'n lân
Megis mantell y friallen, ac yn bur fel ysbryd cân ;
Drwy helyntion dyddiau'r ysgol, gyda'r wawr a brig y nos,
I'w ddiocanu cafodd gwmni llawer gweledigaeth dlos ;
Gall y llanc di-nawdd obeithio yn frenhinol wrtho 'i hun—
Gwelir godreu'r enfys weithiau yn y llaid ar lwybrau dyn !

Gyda'r Eglwys Lân Gatholig bu yn aelod pur ei fron—
Gwn yr hoffai wel'd ei henw'n gyflawn yn y bryddest hon ;
Wrth goffeidio ei defodau a'i herthyglau tybiai ef
Weled yn blodeno drwyddynt wirioneddau gras y Nef.
Yn ei Salmu a'i chorganau unai mewn brwdfrydedd byw,
Ac er llaw 'i gân, ei enaid nofiai i dawelwch Duw !
Mwy o gymeriadau tebyg brofent i ddalineb trist
Pa mor ddwfn yn serch y Cymro ydyw Eglwys Iesu Grist.

Ni fu llwch yn toi yr estyll hyd barwydded cartref TOM,
Treulio noson heb ei lyfrau wnaei ei galon ef yn drom ;
Cafodd ei gyfeillion gorau yn ei lyfrgell ar ddi-hun—
Y cyfeillion dynant allan ranau goreu enaid dyn—
Yn ngoleuni canwyll frwynen, llewyrch llwyd yr amser gynt,
Crwydrai'n eon drwy ffurfafen sér-feddyliau ar ei hynt,

Casglu mêl hyd lwyni'r meddwl wnaei yn ddyfal iawn bryd hyn,
Rhoddai dro drwy ardd y llenor lawer hwyr a boreu gwyn.
Am bereidd-dra dilliau barddas y chwedleuai yn barhaus,
Ac adroddai gân ac englyn gyda swyn a gwên foddhaus ;
Tybiai weled yn y pellder, a'r penrhynau heb ddim rhif,
Blodau'r wlad tu hwnt i amser yn ei wahodd dros y llif.
Ymhyfyrdai gyda'r cerddor, teimlai ei ogleisiad byw,
Murmur alaw wnaei wrth fyned ac wrth dd'od o dŷ ei Dduw ;
Dringai fanau duwinyddiaeth fel yr ewig foreu glas,
A dilynai gyfatebion athrawiaethau Dwyfol ras ;
Ymgymhwysai i wasanaeth dyn a Duw o dôn i dôn—
Llafur dyfal a myfyrdd uchel oedd mwynwerau 'i fron.

Er mor lednais oedd ei ysbryd, er mor lariaidd oedd ei fryd,
Nid ysgogai dan awelon gwamal, gyfnewidiol fyd ;
Craig o fynor oedd cymeriad Thomas Jenkins fwyn drachefn—
Craig o fynor yn gwaelodi bywyd oedd fel afon lefn.

Bys yr awen a'i cyffyrddodd pan oedd llanw bywyd drud
Fel yn parotoi cyfeiriad i'w ddylanwad yn y byd ;
Mae Llandyssul yn oleuach, cyfethocach yn ei cho',
Am i'r awen yma siglo 'i haden arian yn y fro.

Nid oes aelwyd drwy y cylchoedd nad oes côf o'n cyfaill pur
Mewn gwreichionen o athrylith yn disgleirio ar y mur ;
A phe peidiai yr aelwydydd a choffhau ei haeddol rawd,
Fe lefarai y mynwentydd drwy eu meini am ein brawd.
Er na fu yn ngorsedd barddas yn cael urdd dan lygad gwlad,
Urddo 'i hun wnaeth Thomas Jenkins âg anrhydedd hwy 'i barhad.
Nid arddodiad dwylaw dynion, nid gweddillion defod hen
Sydd yn cadw 'i goffadwriaeth heddyw dan wanwynol wên ;

Ac os drylliog yw'r brawddegau yn ei olaf alar-gân,
Mae teimladau drwy y bylchau'n llifo yn aberoedd glân.

Ni chyfyngodd ei athrylith ; nid un llwybr iddi fu,
Fel i'r afon sy'n ddiolaf lifo hebio drws y tŷ ;
Hoffai geinion ein llenyddiaeth, ymddyfyrar yn y gân,
Rhoddai ffordd i dueddiadau goreu ysbryd Cymro glân.

Cafwyd ynddo Asaph cerddgar ; mae yn Eglwys ar ei ol
Eto'n wylu am arweinydd, fel am wanwyn wyla'r ddol.
Mae rhyw absenoldeb lleddfod rhwng ei muriau erbyn hyn—
Ocheneidio mae yr emyn fel amddifad yn y glyn ;
Crynodod hiraeth sydd yn siglo'r anthem ar ei hymdaith bell,
Ac mae'r Salm yn tori 'i wylu ar gyffiniau gwlad sydd well.
Mae'r cwrdd gweddi a'r eisteddfod megis plant dan gawod gref—
Nid oes enfys ar eu dagrau byth er dydd ei farw ef.

Fel y dringai haul i fywyd tua'r uchelderau pell,
Fel diflanai ei bryderon o dan wawr y dyddiau gwell,
Fel y rhoddai llwydd y goron ar ei ymdrech gyda'r byd—
Ymdrech onest sydd yn cerdded ffordd y goron gain o hyd.
Bysedd gwynion serch chwareuent alaw cariad yn ei fron—
Ar gyfriniol danau 'i deimlad y chwareuid yr alaw hon ;
Yn ei murmur i'w briodas cerddodd ar wahoddgar hynt—
Y briodas iawn o'r Iesu, fel priodas Cana gynt—
Ond mor chwithig ydyw synio fod y cwmwl fu mor glyd
O dan law auafol angau wedi 'i ddatod yn y byd.

Ond mor chwithig ydyw gweled nain oedranus erbyn hyn
Gyda 'GRETta' fach yn wylu ar ymylon oer y glyn ;
Ond mae cynydau o adgofion hyd rodfeydd y tad a'r fam,
Beraroglant yr awelon hyd i ddrws y nef bob cam ;
Mae y duwiol yn ei feddrod, dan gysgodion prudd yr yw,
Yn fwy hyawdl na'r ofer-ddyn sydd yn claddu 'i hun yn fyw.

Fel yr haul i'w gyhoeddiadau, ffyddlon fu i'w Dduw a'i waith—
Haul mewn gwir ffyddlondeb ydoedd, nid mewn ymddangosiad, 'chwaith ;
Gall'sai ef yn rhwydd ddygymod â dinodedd yn y tŷ—
Y dinodedd sydd yn enill hawl a ffafr y cartref fry.
Casglu ei brofiadau'n ddistaw wnaei i ddirgelfeydd ei fron—
Prin ddechreuodd eu llefaru wrthym ni yr ochr hon ;
Nid yw amledd ein hareithiau yn 'chwanegu at ein gwerth—
Hawlia'r meddwl mwya' 'i gynyrch ambell saib i gasglu nerth.

Parch ei ddoesbarthiadau graenus yn yr Ysgol Sul a gawn
Heddyw'n gwledda yn eu dagrau ar adgofion melus iawn ;
Mae pereidd-dra ei leferydd eto'n fwisig yn eu clyw,
A'i arabedd drwy eu meddwl draidd o hyd yn wreichion byw.

Parod oedd fel holwyddoreg gyda 'i gwestiwn dan bob gwawr,
Lluosogi yr atebion wnaei â gwres ei ysbryd mawr.
Bu yn dad i blant yr Eglwys, ac fe 'u carai fel ei hun,
Ymddigrifai yn eu cwmni—ymaberthol, hawddgar dlyn ;
Ac wrth garu'r plant, fe garodd ef ddyfodol pell ei wlad—
Dyma'r cariad gyfreithlonar plant o hyd i'w alw'u dad.
Tybed fod ei fantell heddyw'n segur ar ei feddrod llaith ?
Duw y plant sy'n para 'i ddisgwyl ei olynydd at ei waith.

Mor gartrefol oedd ei ysbryd yn awyrgylch gorsedd gras
A'r ehedydd pan yn esgyn uchelderau'r awyr las ;
Nid oedd pwysau daearoldeb yn llesgau ei weddi ef,
Nofiai 'i ysbryd ar ei thônau i hafanau pell y nef.
Difrifoldeb oedd yn bwyslais ar bob gair ddo'i dros ei fin—
Ni cha'dd ef yn ngwaith y deyrnas wybod beth oedd bod yn fin ;
Ysbryd ieuanc oedd ei ysbryd, fel yr awel foreu gwyn,
Cadwai bawb o'i gylch yn effro, fel y rhaiadr yn y glyn,
Ond prydfertwhch gwir sancteiddrwydd ei gymeriad oedd yn gwneyd
I'w ddylanwad ef lefaru mwy na ddichon geiriau ddweyd.
Personoliaeth anorchfygol ydyw hwnw sydd â hedd
Anfachludol Haul y nefoedd yn tywynu ar ei wedd.

Daeth y *diwedd* i'w gyfarfod ef dan fantell *damwain* holl
Megis melten las yn gwanu'r wybren hyd y gorwel pell.
Bys nudandod sydd yn selio gwefus awen erbyn hyn,
Lle i wylu, nid i ganu, yw ymylon oer y glyn ;
Ond yn murmur yr emynau a arweiniodd ef cyhyd,
Cafodd gefnu ar ei ofid pan yn cefnu ar y byd.
Yn ngoleuni llariaidd adgof gwelir llawer bron ddi-hedd
Eto'n wylu 'i diolchgarwch ar dywarchen las ei fedd.

BRYFDIR